# Sut mae safbwyntiau seicolegol yn ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant:

## Biolegol – Cattell, Eysenck, Gesell

### Damcaniaethwr/ Damcaniaethwyr

Cattell, Eysenck a Gesell

**Geiriau Allweddol:**

- **Ffisiolegol**
- **Anianawd**
- **Personoliaeth**
- **Aeddfediad**

### Y prif agweddau ar y dull gweithredu neu'r ddamcaniaeth sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad plant

Mae seicolegwyr sy'n credu yn y dull biolegol wedi datblygu damcaniaethau i esbonio sut mae ein personoliaethau'n cael eu hetifeddu neu sut mae prosesau ffisiolegol yn dylanwadu arnyn nhw, yn hytrach na'n cefndir, ein diwylliant a'n hamgylchedd.

Mae damcaniaethwyr fel Raymond Cattell wedi nodi nodweddion personoliaeth canolog, fel teyrngarwch, caredigrwydd a chyfeillgarwch, a nodweddion personoliaeth eilaidd nad ydyn nhw bob amser yn bresennol neu'n amlwg. Roedd Hans a Sybil Eysenck yn ddamcaniaethwyr personoliaeth a oedd yn canolbwyntio ar anianawd, sef y gwahaniaethau o ran personoliaeth sy'n gynhenid mewn pobl ac sy'n seiliedig ar eneteg. Roedden nhw'n credu mai bioleg yw'r prif ddylanwad ar bersonoliaeth a bod gan bobl ddau brif ddimensiwn personoliaeth: allblygedd/mewnblygedd a niwrotiaeth/ sefydlogrwydd.

Roedd Arnold Gesell yn seicolegydd clinigol a gynhaliodd waith ymchwil ac arsylwi ar ddatblygiad plant. Canfu fod yna batrymau mewn datblygiad y mae pob plentyn yn eu dilyn mewn dilyniant tebyg, er bod pob plentyn yn mynd drwy'r dilyniant ar gyflymderau gwahanol. Enw ei ddamcaniaeth oedd y ddamcaniaeth datblygiad aeddfedol, ac mae llawer o ddamcaniaethau eraill ar ddatblygiad bodau dynol yn seiliedig ar ei waith ef.

### Cymhwyso'r dull ar gyfer ymarferwyr gofal plant ac addysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau

Disgrifiodd Cattell chwe cham bywyd: **babandod**, **plentyndod**, **llencyndod**, **aeddfedrwydd**, **canol oed** a **henaint**. Credai fod personoliaeth plentyn yn cael ei ffurfio rhwng ei enedigaeth a chwe blwydd oed (babandod). Bydd y plentyn yn datblygu ei agweddau cymdeithasol sylfaenol ac ymdeimlad o sicrwydd neu ansicrwydd yn ystod y cam hwn. Fel ymarferwyr, mae hyn yn dweud wrthym mai babandod yw un o'r camau ffurfiannol pwysicaf i blentyn, a bydd profiadau cadarnhaol gartref ac yn y feithrinfa neu'r ysgol yn helpu'r plentyn i ffurfio agweddau cadarnhaol tuag at gymdeithas ac at y plentyn ei hun. Mae'n datgan y bydd plant yn meithrin annibyniaeth, gan symud i ffwrdd oddi wrth y teulu i gydberthnasau â chyfoedion pan fyddan nhw rhwng chwech ac 14 oed. Cynhaliodd Gesell waith ymchwil ar batrymau ymddygiad normal, sydd wedi dylanwadu ar ein dealltwriaeth o gerrig milltir datblygiadol disgwyliedig a'n gwybodaeth amdanyn nhw. Credai Gesell fod datblygiad yn dibynnu ar ffactorau mewnol (gan gynnwys geneteg, personoliaeth, anianawd a thwf corfforol a meddyliol) a ffactorau allanol (gan gynnwys diwylliant, cefndir, amgylchedd, cyflyrau iechyd a rhyngweithiadau cymdeithasol). Gesell oedd y damcaniaethwr cyntaf i sylwi efallai nad yw cam datblygu plentyn bob amser yn cyfateb i'w union oedran. Mae'r dull biolegol yn helpu ymarferwyr i feddu ar ddisgwyliadau realistig o alluoedd plentyn mewn perthynas â'i gam datblygu. Mae hefyd yn llywio dealltwriaeth o oedi mewn datblygiad ac yn rhoi safbwynt deallus o ran ymarfer effeithiol ac empathetig.